

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 8 Tachwedd 2011  
Tuesday, 8 November 2011

### Cynnwys Contents

[Datganiad: Llythrennedd](#)  
[Statement: Literacy](#)

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg. In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair. The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.

#### The Record

**Y Llywydd:** Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the National Assembly for Wales to order.

### ***Datganiad: Llythrennedd*** ***Statement: Literacy***

#### The Record

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** In February 2011, I set out 20 priorities to tackle underperformance in education in Wales, which included a commitment to focus on literacy and numeracy. This statement provides an update on the progress of the National Literacy Programme and outlines the series of actions that the Welsh Government and its partners are taking to achieve a step change in standards of literacy over the next five years.

**Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Ym mis Chwefror 2011, amlinellais 20 o flaenoriaethau i fynd i'r afael â thanberfformio yng Nghymru, a oedd yn cynnwys ymrwymiad i ffocysu ar lythrennedd a rhifedd. Mae'r datganiad hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd y Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol ac yn amlinellu'r gyfres o weithredoedd y mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn eu cymryd i gyflawni newid sylweddol yn safonau llythrennedd dros y pum mlynedd nesaf.

Our programme for government states that our aim for education is to help everyone reach their potential, to reduce inequality, and to improve economic and social wellbeing. One of the key ways to ensure that this aim is achieved is by improving education provision for all learners and specifically by improving standards of literacy. Literacy describes a set of skills, including speaking, listening, reading and writing, which enable us to make sense of the world around us. Literacy is more than decoding words on a page or writing grammatically correct sentences. Literacy is about understanding written and spoken language, interpreting what has been written or said, drawing inferences from evidence and being able to communicate effectively. The National Literacy Programme is a five-year programme of action to transform standards of literacy in Wales. It requires that every school in Wales be focused on the development of literacy skills. The groundwork for literacy skills is laid in the early years of primary school. For this reason, we need to ensure that children receive consistently high-quality teaching in the foundation phase, in order to reduce the number of pupils struggling with literacy skills later on in their education. The primary focus of the National Literacy Programme is on increasing the number of children who are taught well first time, and decreasing the number who need individual support to help them catch up or plug gaps in their knowledge and understanding. While our targeted intervention grants have already helped 7,000 primary school children, there is still much to do. To ensure that each child is given every opportunity to succeed, extra support is needed for those falling behind. We will build on the success of current intervention programmes by exploring how they help pupils at risk of falling behind, or those not achieving their potential.

Mae ein rhaglen lywodraethu'n nodi mai ein nod ar gyfer addysg yw helpu i bawb cyrraedd eu potensial, lleihau anghydraddoldeb, a gwella lles economaidd a chymdeithasol. Un o'r prif ffyrdd i sicrhau bod y nod yma'n cael ei gyflawni yw trwy wella darpariaeth addysg i bob dysgwr ac yn arbennig trwy wella safonau llythrennedd. Mae llythrennedd yn disgrifio cyfres o sgiliau, gan gynnwys siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu, sy'n ein galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas. Mae llythrennedd yn fwy na datgodio geiriau ar dudalen neu ysgrifennu brawddegau sy'n ramadegol gywir. Diben llythrennedd yw deall iaith ysgrifenedig a llafar, gan ddechongli'r hyn a ysgrifennwyd neu a ddywedwyd, gan dynnu casgliadau o dystiolaeth a gallu cyfathrebu'n effeithiol. Mae'r Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol yn rhaglen pum mlynedd o gamau i drawsnewid safonau llythrennedd yng Nghymru. Mae'n mynnu bod pob ysgol yng Nghymru yn ffocysu ar ddatblygiad sgiliau llythrennedd. Mae seilwaith sgiliau llythrennedd yn cael eu gosod yn ystod blynyddoedd cynnar yr ysgol gynradd. Am y rheswm hwn, mae arnom angen sicrhau bod plant yn cael eu haddysgu mewn ffordd sydd o safon uchel yn gyson yn y cyfnod sylfaen, er mwyn lleihau nifer y disgyblion sy'n straffaglu gyda sgiliau llythrennedd yn ddiweddarach yn eu haddysg. Prif ffocws y Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol yw cynyddu nifer y plant sy'n cael eu haddysgu'n dda y tro cyntaf, a lleihau'r nifer sydd ag angen cymorth unigol i'w helpu i ddal fyny neu i lenwi bylchau yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Er bod ein grantiau ymyrraeth wedi'u targedu wedi helpu 7,000 o blant ysgol gynradd yn barod, mae llawer mwy i'w wneud. I sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i lwyddo, mae angen cymorth ychwanegol i'r rheiny sy'n llithro ar ei hôl hi, neu'r rheiny nad ydynt yn cyrraedd eu potensial.

We will require all teachers to be accomplished teachers of literacy. To achieve this in all schools will require a more systematic approach to developing the skills of the whole workforce in the teaching and learning of literacy skills. We will establish a national approach to professional development in literacy through initial teacher training, induction and continuing professional development. International research has emphasised the importance of having high expectations of teachers and quality continuous professional development for improving standards in schools.

My department has already begun work on developing a new national literacy and numeracy framework so that it becomes a focus for teaching and learning in every school and has a central role in the acquisition of literacy skills. The framework will identify end-of-year expectations in literacy and numeracy for all pupils aged five to 14. The national literacy and numeracy framework will be implemented on a voluntary basis from September 2012 and on a statutory basis from September 2013.

My officials have met representatives of the Association of Directors of Education in Wales on a regular basis to develop specific performance-based standards for literacy and numeracy. These standards will define what children should be able to achieve in literacy and numeracy on a year-by-year basis. They will also be used to help to align expectations for literacy across the curriculum, and will strengthen the assessment system to provide reliable data to inform progress.

Bydd rhaid i bob athro fod yn addysgwyr llythrennedd medrus. Bydd cyflawni hyn ym mhob ysgol yn galw am ymateb mwy systematig at ddatblygu sgiliau'r gweithlu cyfan wrth addysgu a dysgu sgiliau llythrennedd. Byddwn yn sefydlu ymagwedd genedlaethol at ddatblygiad proffesiynol mewn llythrennedd trwy hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae ymchwil ryngwladol wedi pwysleisio pwysigrwydd cael disgwyliadau uchel mewn perthynas ag athrawon yn ogystal â datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gwella safonau mewn ysgolion.

Mae fy adran eisoes wedi cychwyn gweithio ar ddatblygu fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol newydd fel ei fod yn dod yn ffocws ar gyfer addysgu a dysgu ym mhob ysgol ac fel bod ganddo rôl ganolog yng nghaffaeliad sgiliau llythrennedd. Bydd y fframwaith yn nodi disgwyliadau diwedd blwyddyn mewn llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion pump i 14 oed. Bydd y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol yn cael ei weithredu'n wirfoddol o fis Medi 2012 a'n statudol o fis Medi 2013.

Mae fy swyddogion wedi cwrdd â chynrychiolwyr o'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru yn rheolaidd i ddatblygu safonau seiliedig ar berfformiad penodol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Bydd y safonau hyn yn diffinio'r hyn y dylai plant allu ei gyflawni mewn llythrennedd a rhifedd o flwyddyn i flwyddyn. Byddant hefyd yn cael eu defnyddio i helpu alinio disgwyliadau ar gyfer llythrennedd ar draws y cwricwlwm, ac yn cryfhau'r system asesu i ddarparu data dibynadwy i seilio cynnydd arno.

**Simon Thomas:** Yr wyf yn croesawu'r datganiad hwn, ac yn diolch i'r Gweinidog am roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y rhaglen a'r cynnydd a wnaed arni. Mae Plaid Cymru yn meddwl bod codi lefelau llythrennedd a rhifedd ymhlith ein pobl ifanc o'r pwys mwyaf, felly byddwn yn cefnogi'r camau y mae'r Llywodraeth a'r Gweinidog yn eu cymryd i'r perwyl hwn.

Serch hynny, mae nifer o gwestiynau yr hoffwn eu gofyn i'r Gweinidog. Mae'r Gweinidog yn iawn i osod hyn yng nghydestun cynllun pum mlynedd. Mae'r datganiad yn sôn yn eithaf manwl am y gwahanol gamau y mae'r Gweinidog yn dymuno eu gweld yn cael eu cymryd mewn ysgolion i godi lefel llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw wedi sôn am dargedau nac am allbwn, hynny yw, yr hyn y mae'n disgwyl ei weld ar ddiwedd y broses. A yw'n disgwyl, er enghraifft, haneru nifer y plant sydd yn methu darllen i'r lefel briodol ar gyfer eu hoedran erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd? Byddai Plaid Cymru yn hoffi gweld mwy o dargedau a mwy o ffyrdd o graffu ar yr hyn sy'n digwydd, nid yn unig ar ein cyfer ni yn y Cynulliad ond ar gyfer y Gweinidog hefyd er mwyn iddo allu dangos y cynnydd y mae'n dymuno ei weld, yr wyf yn siŵr, yn y maes hwn.

O ran y plant sydd yn syrthio tu ôl, mae'r Gweinidog yn sôn am help penodol i 7,000 o blant ysgol gynradd. Mae'n dweud ei fod yn dymuno dileu'r angen am gynlluniau o'r fath drwy'r rhaglen hon. Yr wyf yn derbyn hynny, ond yn y cyfamser, mae'n rhaid inni gael y cynlluniau hynny fel rhwyd i ddal y plant sy'n

**Simon Thomas:** I welcome this statement, and I thank the Minister for providing us with an update on the programme and the progress to date. Plaid Cymru believes that raising literacy and numeracy levels among our young people is of utmost importance and, therefore, we will be supporting the steps that the Government and the Minister are taking in that direction.

Despite that, there are several questions that I would like to put to the Minister. The Minister is right to set this out in the context of a five-year plan. The statement outlines in great detail the various steps that the Minister wishes to see taken in schools to raise literacy levels. However, he has not mentioned targets or outputs, that is, what he expects to see at the end of the process. Does he hope, for example, to halve the number of children who cannot read to the appropriate level for their age by the time that they leave primary school? Plaid Cymru would like to see more targets and more ways of scrutinising what is happening, not only for us in the Assembly, but for the Minister so that he can demonstrate the progress that I am sure he hopes to see in this field.

With regard to the children who fall behind, the Minister mentioned specific help for 7,000 primary school children. He says that he wants to remove the need for such schemes with this programme. I accept that, but in the meantime, we need schemes to provide a net to catch the children who fall behind. What

syrthio tu ôl. Beth yw'r dull presennol o wella sgiliau'r plant hynny? Yr ydym wedi gofyn yn y gorffennol, mewn datganiadau a thrafodaethau yn y Senedd, am gynllun West Dunbartonshire, er enghraifft. Mae'r Gweinidog, yn briodol iawn, wedi dweud bod ganddo'r person a ddyfeisiodd y cynllun yn gweithio iddo ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ai dyma'r math o ymyrraeth yr ydym yn disgwyl ei gweld o fewn y rhaglen lythrennedd hon? Hoffwn glywed mwy—os nad heddiw, yn ystod oes y cynllun—am y cynlluniau dal-i-fyny sy'n cael eu cyflwyno mewn ysgolion. Ai un cynllun cenedlaethol y mae'r Gweinidog yn ei hyrwyddo, ynteu a yw'n gadael i'r gwahanol gonsortia, ysgolion ac ati ddyfeisio eu cynlluniau eu hunain?

Mae'r datganiad yn dweud yn glir:

'We will require all teachers to be accomplished teachers of literacy.'

Mae'n od, mewn ffordd, nad yw athrawon ysgolion cynradd yn athrawon llythrennedd o'r fath yn barod. Serch hynny, ein dymuniad ni oll yw cael athrawon o'r fath. Hoffwn glywed mwy am yr hyn y mae'r Gweinidog yn disgwyl ei weld o ran cynllun datblygu proffesiynol parhaus. Yn benodol, a yw'n gweld datblygu gradd Meistr i athrawon fel y ffordd ymlaen i'r proffesiwn yng Nghymru?

Cwestiwn arall sy'n codi o'r datganiad yw: pwy sy'n monitro hyn i gyd? Mae'r Gweinidog yn sôn am y profion darllen a chasglu gwybodaeth drylwyr. Fodd bynnag, mae sawl corff a all fod yn monitro hyn i gyd. Mae uned safonau ysgolion o fewn adran y Gweinidog, mae rôl o hyd i awdurdodau lleol yn ôl y datganiad, a gallai Estyn, consortia o awdurdodau, yr ysgolion eu hunain a chyrrff llywodraethu hefyd fonitro'r sefyllfa. Sut mae'r Gweinidog yn gweld y cyrrff hyn yn cydweithio gyda'i gilydd? A yw'n gweld angen i ddiwygio'r trefniadau monitro? Yr wyf yn synhwyro mai ei ddymuniad yw rhoi'r uned safonau ysgolion ar ben y cyfan. Hoffwn ei glywed yn dweud hynny'n blwmp ac yn blaen, er mwyn inni wybod lle'r ydym yn sefyll.

method is used currently to improve the skills of those children? We have asked in the past, during statements and discussions in the Senedd, about the West Dunbartonshire scheme, for example. The Minister has said, quite rightly, that the person who invented that scheme is working for him at the moment. However, is that the sort of intervention that we are expecting to see with this literacy programme? I would like to hear more—if not today, then during the life of the programme—about the catch-up schemes that are being introduced in schools. Is the Minister promoting one national scheme, or is he to allow the various consortia, schools and so on to invent their own schemes?

The statement says clearly:

It is odd, in a way, that primary school teachers are not teachers of literacy already. Despite that, we all wish to have such teachers. I would like to hear more about what the Minister expects to see in terms of continuous professional development. Specifically, does he see the development of a Master's degree for teachers as the way forward for the profession in Wales?

Another question that arises from the statement is: who is monitoring all of this? The Minister mentions the reading tests and the collection of detailed data. However, there are several organisations that could be monitoring all of this. There is the school standards unit in the Minister's department, there is still a role for the local authorities according to the statement, and Estyn, consortia of authorities, schools themselves and governing bodies could also monitor the situation. How does the Minister see the co-operation between these bodies? Does he see a need to reform the monitoring arrangements? I sense that he wishes to put the school standards unit above it all. I would like to hear him say that clearly, so that we know where we stand.

Hoffwn glywed mwy am y camau nesaf y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i sefydlu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn statudol erbyn 2013, fel y mae'n dymuno gwneud. Hoffwn ategu'r geiriau bod yn rhaid i'r fframwaith hwn gydweithio â chynlluniau gwirfoddol, megis Dechrau Da y soniodd amdano, cyfraniad y rhieni a'r gefnogaeth anffurfiol y mae plant yn ei derbyn mewn ysgolion.

Mae wedi esbonio'r rheswm dros hyblygrwydd o ran datblygu profion darllen cenedlaethol yn Gymraeg. Gan fod y Gweinidog Cyllid yma hefyd, y cwestiwn olaf sydd gennyf yw: a wnaiff y Gweinidog addysg gadarnhau i'r Cynulliad y prynhawn yma fod ganddo gyllid digonol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer ei gynlluniau cyffrous?

The Record

**Leighton Andrews:** I welcome, again, the support from the Plaid Cymru spokesperson. He is right to say that there is significant detail in the statement. I have only one target as far as literacy is concerned, which is that every pupil should, at the end of every academic year, reach the expected reading age if they are capable of doing so. That is the only target that we need. However, we are clearly falling short of that at the present time. Yesterday, I had a meeting with Estyn at which it discussed some of its findings over the last year, and it is absolutely apparent that we still have a long way to go in achieving that target.

In the last 18 months, we have put support in place for catch-up programmes, specifically focused at pupils aged seven to 11, because we believe that this is a problem that we need to crack in primary school in particular. That funding was announced and rolled out during the period of the One Wales Government, and we are continuing with those programmes. We involved those who had extraordinary success in West Dunbartonshire in Scotland in the development of literacy

I would like to hear more about the next steps that the Minister intends to take to establish a statutory literacy and numeracy framework by 2013, as he wishes to do. I would like to reiterate the fact that this framework has to complement voluntary schemes, such as Bookstart which he has mentioned, the contribution of parents and the informal support that children receive in schools.

He has explained the reason for the flexibility in terms of national reading tests through the medium of Welsh. As the Minister for Finance is also here, my final question is: will the Minister for education confirm to the Assembly this afternoon that he has enough money in the draft budget to implement his exciting plans?

**Leighton Andrews:** Eto, croesawaf gefnogaeth llefarydd Plaid Cymru. Mae e'n llygad ei le pan ddywed bod cryn fanylion yn y datganiad. Dim ond un targed sydd gennyf lle bo llythrennedd yn y cwestiwn, sef y dylai bod pob disgybl, ar ddiwedd pob blwyddyn academiaidd, yn cyrraedd yr oed darllen disgwylidig os oes ganddynt y gallu i wneud hynny. Dyna'r unig darged y mae arnom ei angen. Fodd bynnag, nid ydym, yn amlwg, yn ei gyrraedd ar hyn o bryd. Ddoe, cefais gyfarfod gydag Estyn lle trafodwyd rhai o'i ganfyddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n gwbl amlwg bod gennym dipyn o ffordd i fynd o hyd i gyrraedd y targed.

Yn y 18 mis diwethaf, rydym wedi rhoi cefnogaeth ar waith ar gyfer rhaglenni dal i fyny, sy'n ffocysu'n benodol ar ddisgyblion saith i 11 oed, oherwydd ein bod yn credu bod hwn yn broblem y mae arnom angen ei ddatrys mewn ysgolion cynradd yn arbennig. Cyhoeddwyd yr arian hwnnw a'i roi ar waith fesul cam yn ystod amser Llywodraeth Un Cymru, ac rydym yn parhau â'r rhaglenni hynny. Bu i ni gynnwys y rheiny a gafodd lwyddiant

schemes, in helping us devise the approach that we are taking in Wales.

We wish to move to single reading tests. We asked Professor Rhona Stainthorp from the University of Reading to look at the tests that we had available, as she is an acknowledged expert in the field. She found that there was too much variability in the process at the present time. I explained that in my speech at the end of June, which I think that the Member attended, at an Institute of Welsh Affairs event.

Currently, insufficient focus is given to the teaching of reading skills within initial teacher training, which is why we are seeking to change the curriculum and why we have also embraced the idea of introducing a Master's programme, as part of continuous professional development for teachers. I would expect to have more to say about initial teacher training and the Master's programme in due course. With regard to monitoring, I said explicitly in the statement that the school standards unit will monitor that. Finally, do we have the money? Yes, I believe that we do.

anhygoel yng Ngorllewin Dunbartonshire yn yr Alban wrth ddatblygu cynlluniau llythrennedd, i'n helpu i ddyfeisio'r ymagwedd rydym yn ei chymryd yng Nghymru.

Rydym yn dymuno symud tuag at brofion darllen sengl. Gofynasom i'r Athro Rhona Stainthorp o Brifysgol Reading edrych ar y profion a oedd ar gael gennym, ac mae hi'n arbenigwr cydnabyddedig yn y maes. Bu iddi ddarganfod bod yna ormod o amrywiant yn y broses ar hyn o bryd. Esboniais hynny yn fy araith ar ddiwedd mis Mehefin, yn ystod digwyddiad yn y Sefydliad Materion Cymreig, rwy'n credu y bu i'r Aelod ei fynychu.

Ar hyn o bryd, ni roddir ddigon o ffocws ar addysgu sgiliau darllen yn ystod hyfforddiant cychwynnol athrawon, a dyma pam rydym yn ceisio newid y cwricwlwm a hefyd pam rydym wedi cofleidio'r syniad o gyflwyno rhaglen Meistri, fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus i athrawon. Rwy'n disgwyl y bydd gennyf ragor i'w ddweud am hyfforddiant cychwynnol athrawon a'r rhaglen Meistri yn ei bryd. O ran monitro, dywedais yn glir yn y datganiad y bydd yr uned safonau ysgolion yn monitro hynny. Yn olaf, ydy'r arian gennym? Ydy, rwy'n credu ei fod e.

Cymerwyd y darn hwn o Gofnod y Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2011 ac mae'n cynnwys y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews, a Gweinidog y Cynulliad dros Blaid Cymru, Simon Thomas. Mae'r drafodaeth ynghylch y fframwaith llythrennedd a rhifedd newydd arfaethedig a'i asesiad mewn ysgolion cynradd. Ar ôl darllen yr erthygl a chan roi'ch barn eich hun, trafodwch y canlynol **gan ddefnyddio llai na 500 o eiriau:**

***Mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn disgwyl 'y dylai bod pob disgybl ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd yn cyrraedd yr oed darllen disgwyliedig os oes ganddynt y gallu i wneud hynny'. Hefyd, mae LIC yn credu bod 'llythrennedd yn fwy na dim ond datgodio geiriau ar dudalen neu ysgrifennu brawddegau sy'n ramadegol gywir'. Sut felly y gellir mesur ac asesu gallu llythrennedd pob plenty?***

Nid oes ateb cywir gan mai pwynt trafod yw hwn. Rydym yn chwilio am:

- Safbwyntiau amrywiol
- Eich barn
- Cyfeirio at ddatganiadau yn y darn ei hun
- Gallu i gynnig awgrymiadau y tu hwnt i'r darlenniad hwn